CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

# Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 5 Rhagfyr 2016

Presennol: Cadeirydd: Cyng Gareth Evans. Cyngr: Iwan Davies, Colin Lewis, Ken Symmons, Mrs Jina Hawkes, Mrs Eleri Davies, Hywel Davies

Ymunodd y Cynghorydd Sirol H Lewis â'r cyfarfod fel y dangosir yn y cofnodion.

Aelodau'r cyhoedd: 0

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyng Bryan Rees, y Cyng Mrs K Morgan a'r Cyng Mrs A Edwards.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**4. Materion Personol**
Dim.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
*Cadw gwaith peirianneg etc, Modurdy Express, Llechryd, Aberteifi*
Cytunwyd bod y datblygiadau yng nghanol y pentref, wrth ymyl eiddo preswyl, yn hollol anaddas. Nid oedd yr ymgeisydd wedi dangos dim tystiolaeth o angen 'leol'. O gofio natur a maint a natur y cynnig, byddai'n fwy addas ar barc neu safle diwydiannol. Byddai cynnydd yn nifer y cerbydau yn effeithio ar drigolion, a hefyd y sŵn yn deillio o ddefnyddio'r safle. Roedd yno hefyd bryderon am ddiogelwch am fod y fynedfa i'r safle arfaethedig gyferbyn â'r neuadd gymunedol, sy'n cael ei defnyddio'n helaeth. Ofnid y byddai triniaethau ffiniau a goleuo'r safle yn effeithio ar gymdogion, ac o gofio'r agwedd storio ar y cynnig gallai fod cynnydd mewn troseddu. Nodwyd hefyd, er bod y planiau'n dangos 'nifer penodol' o lefydd parcio ar gyfer cynwysyddion mawr, faniau ac ati, nad oedd dim cadarnhad ysgrifenedig o'r union niferoedd. Gofynnodd y Cyngor Cymuned hefyd am gael ymweliad safle cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol am y cais.

Roedd y Cyng Sirol H Lewis wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned gadarnhau y byddai'r Cyngor Sir yn gwneud arolwg ffiniau o setliad LPD yn 2017. Cadarnhaodd y Clerc fod gwybodaeth am y gwaith eisoes ar wefan y Sir.

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng I Davies y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng C Lewis, a chytunwyd yn unfrydol.

**7. Materion yn Codi**
Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi trwsio a chryfhau'r meinciau yn y lle chwarae a'i fod wedi gosod y dorch yn yr Hen Eglwys ar Sul y Cofio.

Cytunwyd i ysgrifennu llythyr o ddiolch i'r ysgol am groesawu'r digwyddiad i gynnau'r goleuadau Nadolig.
**GWEITHREDU:** Llythyr at yr ysgol **GAN:** Y Clerc

**8. Cyllid a Gweinyddu**
*Taliadau*

| | Talai | Am | banc |
|---|---|---|---|
| 5.12.16 | | | |
| | Abacus | Glanhau bloc y toiledau | 170.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Abacus | Glanhau'r gysgodfan bws | 76.00 | |
| | Cyng G Evans | 7 Seren – cynnau'r goleuadau | 67.50 | |
| | Swallow | Inc i'r printiwr | 144.50 | |
| | Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017 | Rhodd | 200.00 | |
| | S E Houghton | Cyflog Tach AS cymhwysiad | 7.65 | |
| | S E Houghton | Swyddfa yn y Cartref / Postio (6.60) | 31.60 | |
| 30.12.16 | S E Houghton | Cyflog Rhag | 330.18 | AS |
| | | | 1,027.43 | |

Dywedodd y Clerc fod adroddiad y Banc wedi cyrraedd yn y post y diwrnod hwnnw ac felly nid oedd hi wedi cael amser i wneud addasiad cywir, ond y gweddill ar ôl ei gymhwyso oedd tua £16700 hyd at ddiwedd mis Tachwedd.

Cynigiwyd gan y Cyng C Lewis, eiliwyd gan y Cyng Mrs J Hawkes, cytunwyd yn unfrydol.

*Ymunodd y Cyng Sirol â'r cyfarfod.*

Gofynnodd y Clerc i ddau berson lofnodi'r archeb sefydlog newydd ar gyfer ei chyflog.

*Cais am rodd gan Jig-So*. Ar ôl trafod cytunwyd i roi £200.
Cynigiwyd: Cyng Mrs E Davies, eiliwyd Cyng Hywel Davies, cytunwyd yn unfrydol.

*Cyllideb 2017/18*

*Torri'r borfa*
Roedd pedwar contractiwr wedi gwneud cais am y contract torri porfa yn 2017/18. Ar ôl trafod cytunwyd i roi'r contract i Mr E Brown.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r ymgeiswyr GAN: Y Clerc

*Pleidleisio ar yr Ymgynghoriad ar Adroddiad Blynyddol Drafft IRPW - Chwefror 2017*

| | |
|---|---|
| Ad-daliad aelodau | Ni chytunwyd |
| Cydnabod cyfrifoldebau penodol | Ni chytunwyd |
| Lwfans dinesig – cadeirydd | £350 yn y gyllideb wedi'i gytuno |
| Lwfans dinesig – is-gadeirydd | Ni chytunwyd |
| Costau teithio | £100 yn y gyllideb wedi'i gytuno |
| Aros dros nos | Ni chytunwyd |
| Iawndal am golled ariannol | £200 yn y gyllideb wedi'i gytuno |
| Costau gofal pobl ddibynnol | £1000 i'w neilltuo yn y gronfa wrth gefn yn y flwyddyn ariannol 2017/18 |

Roedd y Clerc wedi paratoi dadansoddiad manwl o'r gyllideb. Wrth adolygu'r ffigurau cytunwyd hefyd y byddai'r Cyngor yn darparu'n ariannol i adnewyddu'r siglenni bach a'r arwyneb gan fod y rheiny wedi'u rhestru fel problem yn ystod yr archwiliad blynyddol o fannau chwarae.
Cynigiodd y Cyng C Lewis y dylai'r praesept ar gyfer 2017/18 fod yn £28,000, eiliwyd gan y Cyng Mrs J Hawkes, cytunwyd yn unfrydol.
Copi o'r gyllideb lawn wedi'i gysylltu.
**GWEITHREDU:** Dweud wrth y Cyngor Sir **GAN:** Y Clerc

Mynegodd y Cyng Sirol H Lewis ei bryder nad oedd y siglenni wedi'u symud gan eu bod wedi'u rhestru yn broblem ddiogelwch. Cytunwyd y byddai'r Cyng H Davies yn symud y siglenni bach a'u gwaredu, ac yn llenwi unrhyw dyllau o ganlyniad.

Gofynnodd y Clerc am ganiatâd i waredu'r hen brintiwr gan nad oedd bellach yn cael ei ddefnyddio. Cymeradwywyd hynny.

*PAYE* – Dywedodd y Clerc y byddai'n gwneud hyn cyn gynted ag y byddai gwaith TAW yr elusen wedi'i gwblhau.

*Elusen*
TAW – Roedd yn rhaid i'r Clerc gwblhau'r gwaith terfynol ar y wybodaeth cyn ei anfon at HMRC. Roedd cyfrif bras o'r TAW a dalwyd gan y Cyngor am bryniadau'r Elusen, o'r cofnodion a oedd ar gael (roedd rhai cofnodion yn eisiau), tua £13k.

Roedd y Clerc wedi cael cyngor am ffurflenni sero y Comisiwn Elusennau ar y sail nad oedd yr Elusen yn cadw cyfrifon.

Atgoffodd y Clerc y Cyngor am ei gwyliau hi yn ystod y Nadolig.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Atgoffwyd y Cynghorwyr am y cyfarfod gyda Mr Gary Griffiths, Adran Briffyrdd CSC ynglŷn â *safleoedd i'r blychau blodau*, 10am wrth groesffordd Croes-y-llan, dydd Mercher 7 Rhagfyr*.*

*Cau'r ffordd gan Ddŵr Cymru*
Dywedodd y Cyng C Lewis fod y ffordd wedi'i chau a bod Dŵr Cymru wedi cytuno i gymryd i ystyriaeth yr ymateb lleol i'r ffyrdd arfaethedig.

**10. Amwynderau**
*Cyfleustra Cyhoeddus*
Dywedodd y Clerc ei bod yn rheidrwydd ar y Cyngor Sir i godi trethi ar adeiladau sy'n eiddo i Gyngor. Dywedodd y dylai'r trethi leihau ryw ychydig gan fod gwerth trethiannol yr adeilad wedi gostwng.

*Tap yn nhoiledau'r merched*
Roedd problemau'n parhau gyda'r tap a oedd yn dal i sticio yn nhoiledau'r merched. Cytunwyd i chwilio am dapiau cryfach i'w defnyddio mewn lle cyhoeddus.
**GWEITHREDU:** Ymchwilio **GAN:** Y Clerc

Dywedwyd bod y gwaith trydan i ddigwydd ar ôl y Nadolig.

*Man chwarae a'r cae*
Dywedwyd bod y clawdd yn y lle chwarae wedi'i docio.

Lleoli'r fainc wedi'i rhoi gan Mr Leigh – roedd y Cyng Mrs A Edwards yn garedig iawn wedi cynnig siarad â chontractwyr lleol ynglŷn â gosod llwyfan concrid ar gyfer y fainc. Nodwyd y byddai Mr Leigh yn talu'r holl gostau'n gysylltiedig â'r fainc a'i gosod.

Roedd manylion am yr arian cymunedol AVIVA wedi'u hanfon at y Cyng Mrs A Edwards. Proses 'bleidlais' oedd hon. Roedd Tesco hefyd yn rhedeg cynllun tebyg. Gan fod sylw wedi'i roi i'r siglenni yn yr adroddiad ar y lle chwarae, awgrymodd y Clerc yn gryf y dylid delio â'r rheiny yn gyntaf cyn ystyried unrhyw brosiect arall.

**11. Prosiectau'n parhau**
*Cadw llygad ar gyflymdra* – Gweler adroddiadau'r cyfarfod
*Llwybr i Aberteifi* – Gweler adroddiadau'r cyfarfod

*Llythyr Newyddion*
Gohiriwyd

*Diffibrileiddiwr*
Gohiriwyd

**12. Digwyddiadau**
*Goleuadau solar adeg y Nadolig*
Cytunwyd yn gyffredinol y byddai hyn debyg iawn yn ddrud ac na fyddai'n ymarferol. Ni fyddai'r mater yn mynd ddim pellach.

**13. Adroddiadau cyfarfodydd**
*Cyfarfod gydag Arweinydd a Phrif Weithredwr CSC – Adroddiad gan y Cyng C Lewis*
Dosbarthu tai
Dywedodd y Cyng C Lewis fod CSC eisoes yn ymwybodol o broblem dosbarthu eiddo i bobl leol. Roedd CSC wedi newid y drefn ac roedd effaith hynny'n cael ei monitro.
Llwybr i Aberteifi
Roedd CSC wedi nodi hyn a byddent yn edrych ar y mater pan fyddai adnoddau ac arian yn caniatáu.
Cadw llygad ar gyflymdra
Er nad oedd dim systemau i gadw llygad ar gyflymdra ar waith erbyn hyn, roedd 15 o rai symudol ar gael. Cytunwyd gyda CSC y byddai'r wybodaeth sydd eisoes ar gael i CSC o'r hen systemau monitro yn cael ei chadw i gyfeirio ati yn y dyfodol.
Trethi busnes
Nodwyd nad oedd toiledau i'r anabl yn drethadwy, ac ystyriwyd addasu'r bloc presennol.
Nodwyd nad oedd Elusennau'n talu trethi busnes ar adeiladau tebyg, a gofynnwyd a allai'r bloc toiledau gael ei drosglwyddo i'r Elusen.

Dywedodd y Clerc fod yna reolau ar gyfer gwaredu eiddo ym meddiant Cyngor, a thybiai y byddai'n rhaid i'r Comisiwn Elusennau gymeradwyo trosglwyddiad felly.
**GWEITHREDU:** Ymchwilio **GAN:** Y Clerc

**14. Gohebiaeth + Gohebiaeth e-bost**
*Gohebiaeth wedi'i gweithredu*
Gwahoddiad RSVP gan Gyngor Cymuned Llandudoch i sgwrs gan Jane Davidson ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar 12.01.17, 7pm, Neuadd Goffa, Llandudoch. Dywedodd y Cadeirydd a'r Cyng C Lewis y byddent yn mynd. Dywedodd y Cyng J Hawkes y byddai'n rhoi gwybod i'r Clerc a fyddai hi ar gael.

*Gohebiaeth wedi'i nodi*
Llythyron o ddiolch oddi wrth:
Age Concern, Theatr Felin-fach, Theatr Troed-y-rhiw

Dweud eich Dweud - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Un Llais Cymru: Penodiadau Swyddogol : Cyhoeddus yng Nghymru

Newyddion diweddaraf oddi wrth ICO - Rhagfyr 2016

BIC Hywel Dda 2017-2018 Holiadur cynllunio

Gweithdy Rhwydweithio ac Arwain gyda Hyder - Prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth

CFfDLC Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer

Blwyddyn Chwedlau 2017 a Blwyddyn y Môr 2018

Rheoliadau Drafft Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2016

Croeso i fwletin gwybodaeth Un Llais Cymru

Cymorth Cynllunio Cymru – digwyddiad rhwydwaith

Digwyddiad i ddathlu'r Bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Nyth 10.01.17

Cryfach gyda'i Gilydd: Cartrefi Iach i Bawb

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Roedd cwestiwn wedi dod ynglŷn â pham roedd planhigion yn cael eu gwerthu o'r safle adeiladu gwag yn y pentref. Sylwyd bod hyn i'w weld yn digwydd fel rhyw fath o ganolfan garddio fach heb ganiatâd i newid defnydd o breswyl i fasnachol.
**GWEITHREDU:** Holi **GAN**: y Clerc

Corner Wood – dywedwyd bod y cartref symudol wedi'i symud gan gontractwyr.

Mynegodd y Cyng I Davies ei bryder bod biniau sy'n cael eu gadael allan yn rhwystro'r llwybrau ym Maesyderi a bod ceir yn parcio ar y man croesi.
**GWEITHREDU:** Erthygl papur newydd ac FB **GAN**: Y Clerc

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 9.01.17 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.13pm*.

| CYLLIDEB Llangoedmor 2017/18 | Cytunwyd 2016/17 | Cyllideb Arfaethedig 17/18 |
|---|---|---|
| **Treuliau** | | |
| Cynghorwyr | 100 | 100 |
| Lwfans y Cadeirydd | 350 | 350 |
| Hyfforddiant | 300 | 300 |
| Dros Nos 50 | | 200 |
| **Cyfanswm** | **750** | **950** |
| | | |
| **Cyflog / Treuliau etc y Clerc** | | |
| Cyflog | | |
| HMRC (Treth) wedi'i thynnu'n ôl | | |
| HMRC (YG) | | |
| Cyfanswm: | 4000 | 4500 |
| Treuliau'r Clerc | 100 | 100 |
| Hyfforddiant y Clerc | 300 | 300 |
| Swyddfa yn y Cartref | 300 | 300 |
| **Cyfanswm:** | **4700** | **5200** |
| | | |
| **Cyflenwadau swyddfa, postio, defnydd ysgrifennu a hysbysebion** | | |
| Postio/ Ffôn / cyflenwadau swyddfa | 580 | 580 |
| Cynnal a chadw gliniadur | 200 | 200 |
| Cyfieithu | 1500 | 550 |
| **Cyfanswm:** | **2280** | **1330** |
| | | |
| **Hurio'r Neuadd** | **160** | **300** |
| | | |
| **Cynnal a Chadw, trwsio a defnyddiau** | | |
| Cynnal a Chadw, trwsio | 1000 | 1000 |
| Torri'r borfa | 2000 | 1600 |
| Goleuadau Nadolig | 600 | 600 |
| **Cyfanswm**: | **3600** | **3200** |
| | | |
| **Cysgodfan Bws** | | |
| Cynnal a chadw'r gysgodfan bws | **600** | **600** |
| | | |
| **Lle Chwarae** | | |
| Trwsio a chynnal a chadw'r lle chwarae | 600 | 600 |
| Archwilio'r maes chwarae | 100 | 100 |
| **Cyfanswm:** | **700** | **700** |
| | | |
| **Toiledau Cyhoeddus** | | |
| Glanhau'r toiledau cyhoeddus | 2000 | 2200 |
| SWALEC | 90 | 120 |
| Dŵr Cymru | 400 | 700 |
| Cynnal a chadw cyffredinol | 1000 | 1000 |
| Trethi | 600 | 600 |
| **Cyfanswm:** | **4090** | **4620** |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Proffesiynol, Yswiriant a Thaliadau** | | |
| Yswiriant | 1500 | 1500 |
| Un Llais Cymru | 180 | 200 |
| SLCC | 80 | 100 |
| Archwiliad allanol | 345 | 345 |
| Archwiliad mewnol | 250 | 100 |
| Diogelu data | 35 | 35 |
| Gwefan | 150 | 150 |
| **Cyfanswm:** | **2540** | **2430** |
| | | |
| **Rhoddion** | | |
| Rhoddion cyffredinol | **2500** | |
| S137 | | |
| **Cyfanswm:** | | **1500** |
| | | |
| **Prosiectau Cyfalaf** | | |
| Lle chwarae | 2000 | 7000 |
| Plac | 0 | |
| Goleuadau Nadolig | 0 | |
| Gliniadur | 0 | |
| **Cyfanswm** | **2000** | **7000** |
| | | |
| **Adloniant** | | |
| Gwesteion Cinio | **80** | **80** |
| | | |
| **Cyfanswm:** | | |
| Praesept 2016/17 | 24000 | |
| A Grant Mynwentydd | 1200 | |
| Finch yn fras | 68 | |
| Banciau poteli yn fras | 100 | |

**Cyllideb 2017/2018**

Cynigiwyd: C Lewis, eiliwyd J Hawkes **28000**

Cytunwyd yn unfrydol

Disgwyl ymateb HMRC i TAW a’r Elusen ar ddyddiad y cymeradwyo (gall y bydd angen i’r Cyngor ad-dalu TAW a adhawliwyd))